

Ffeithiau a ffigurau i gefnogi mentrau teithio ysgol Sustrans

Gwybodaeth i rieni ac ysgolion



Sustrans

Mae Sustrans yn gwneud dewisiadau craffach yn bosibl, yn atyniadol ac yn anochel. Rydym yn elusen flaenllaw yn y DU sy'n galluogi pobl i deithio ar droed, beic neu drafndiaeth gyhoeddus ar gyfer rhagor o'r siwrneiau yr ydym yn eu gwneud bob dydd. Rydym yn gweithio gyda theuluoedd, cymunedau, llunwyr polisïau a sefydliadau partner fel y gall pobl ddewis siwrneiau iachach, glanach a rhatach, gyda gwell lleoedd a gofodau i symud trwydynt a byw ynddynt

Mae'n bryd i ni gyd ddechrau gwneud dewisiadau teithio craffach. Camwch ymlaen a chefnogwch Sustrans heddiw.

Rhagarweiniad

Mae mentrau teithio ysgol yn annog plant i gerdded a beicio i'r ysgol drwy ddulliau ymarferol ac addysgol. Mae'r ffeithiau a'r ffigurau hyn yn rhoi tystiolaeth i gefnogi prosiectau teithio ysgol yng Nghymru ac ysbrydoli staff, disgyblion, rheini a'r gymuned leol i gydweithio i wneud y siwrnai i'r ysgol yn fwy diogel, yn iachach ac yn fwy pleruser i bawb.

Y siwrneiau a wnawn

Mae traffig ar y ffyrdd yn cynyddu

- Yn 2009, swm y traffig cerbydau modur yng Nghymru oedd 27.95 biliwn o gilometrau cerbyd, cynnydd gan 12% o 1999.⁽¹⁾
- Mae lleihad mewn costau moduro yn cyd-reddeg â'r twf mewn teithio car.⁽²⁾

- Yn 2009 roedd prisiau bws a thrên 24% a 13% (yn yr un drefn) yn uwch nag ym 1997 (mewn termau gwirioneddol).⁽²⁾
- Rhagwelir y bydd cyfanswm traffig yng Nghymru, a fesurir mewn cilometrau cerbyd, yn tyfu gan 22% rhwng 2003 a 2025 a 39% erbyn 2035.⁽³⁾

Rydym yn teithio ymhellach

- Ym Mhrydain Fawr mae cyfartaledd hyd siwrnai wedi cynyddu o 5.2 milltir yn 1985/86 i saith milltir yn 2009.⁽⁴⁾
- Ar gyfartaledd teithiodd pobl yng Nghymru 7,026 milltir yn 2009, o gymharu â 5,317 milltir (a deithiwyd gan bobl ym Mhrydain Fawr) yn ystod 1985.⁽¹⁾

YMUNWCH Â'R MUDIAD

sustrans

JOIN THE MOVEMENT



Rydym yn cerdded ac yn beicio llai

- Yn 2008 gwnaeth pobl yng Nghymru gyfartaledd o 206 o deithiau cerdded am bob person, o gymharu â 350 taith (ym Mhrydain Fawr) ym 1985/86.⁽¹⁾
- Ym Mhrydain Fawr gwnaethom gyfartaledd o 15 siwrnai ar feic am bob person yn ystod 2009, o gymharu â 25 ym 1985/86.⁽⁴⁾
- Mae 42% o bobl yn y DU yn berchen ar un neu ragor o feiciau, ond dim ond 2% o bob siwrnai a wneir ar feic.⁽⁴⁾

Rydym yn defnyddio'r car yn fwy

- Yn 2008/09 gwnaeth pobl yng Nghymru gyfartaledd o 413 o deithiau am bob person (fel gyrrwyr car) o gymharu â 395 ym 1999/2001 - cynnydd gan 5%.⁽¹⁾
- Ym Mhrydain Fawr, roedd teithiau mewn car (fel gyrrwr neu deithiwr) yn cyfrif am 63% o bob taith a wnaed a 79% o'r pellter a deithiwyd yn 2008/09.⁽⁴⁾

Eto gellid beicio neu gerdded y rhan fwyaf o siwrneiau

- Roedd 20% o'r siwrneiau a wnaed yn 2009 yn llai na milltir.⁽⁴⁾
- Gwnaed 54% o bob siwrnai o dan bum milltir mewn car yn 2008.⁽⁵⁾
- Cyfartaledd siwrneiau car yn 2009 oedd dim ond 8.4 milltir.⁽⁴⁾
- Ar gyflymder hamddenol gallwch feicio un filltir mewn pum munud (dwywaith cyflymder car mewn traffig yr awr frig),⁽⁶⁾ ac ar gyfartaledd mae pobl yn cerdded rhwng dwy a phedair milltir yr awr.⁽⁷⁾
- Gellid disodli bron i hanner y teithiau mewn car yng Nghymru drwy gerdded, beicio neu drafnidiaeth gyhoeddus.⁽³³⁾

Teithio i'r ysgol

Yn gyffredinol, mae patrymau teithio plant cynradd (5-10 oed) ac uwchradd (11-16 oed) yn wahanol, yn rhannol oherwydd annibyniaeth cynyddol a ddaw gydag oedran, ond yn bennaf oherwydd bod plant ysgol gynradd yn byw yn llawer agosach i'w hysgol.⁽⁴⁾

Mae siwrneiau ysgol yn mynd yn hirach

- Mae cyfartaledd hyd taith i'r ysgol yng Nghymru wedi cynyddu o 3.0 milltir ym 1995/99 i 3.5 milltir yn 2008/09.⁽¹⁾
- Cyfartaledd cost blynyddol y daith i'r ysgol mewn car am bob plentyn ysgol gynradd yw £367.⁽⁸⁾

Yn ddiweddar mae llai o blant yn cerdded i'r ysgol

- Yn 2008/09, teithiodd 34% o blant rhwng 5 a 16 oed yng Nghymru i'r ysgol mewn car, cynnydd gan 5% ar ffigur 1995/99. Cerddodd 36% i'r ysgol yn 2008/09, lleihad gan 1% ar ffigur 1995/99.⁽¹⁾

Mae'r tuedd ar gyfer teithio annibynnol wedi newid

- Ym 1971 cerddodd 80% o blant saith i wyth oed i'r ysgol yn annibynnol,⁽⁹⁾ lle yn 2009 dim ond 11% o blant 7 i 10 oed a 60% blant 11-13 oed oedd fel arfer heb oedolyn yn gwmni iddynt.⁽⁴⁾
- Ym mhob grŵp oedran y prif reswm a roddwyd am fynd gyda phlant i'r ysgol oedd perygl traffig ac ofn ymosodiad.⁽⁴⁾
- Mae'r NSPCC yn amcangyfrif bod 11 plentyn ar gyfartaledd yn cael eu lladd gan ddieithriaid, lle cafodd 49 eu lladd fel teithwyr yn teithio mewn car yn 2008.⁽¹⁰⁾

Siwrneiau i'r Ysgol (Prydain Fawr)⁽⁴⁾

	1985/86		1995/97		2009	
	5-10 oed	11-16 oed	5-10 oed	11-16 oed	5-10 oed	11-16 oed
cerdded	67%	52%	53%	42%	50%	38%
beicio	1%	6%	0%	2%	1%	3%
car	22%	10%	38%	20%	42%	22%
bws	4%	20%	7%	33%	7%	32%
arall	2%	1%	2%	3%	0%	5%

Noder os gwelwch yn dda, oherwydd y gwahaniaethau yn y modd y cafodd yr ystadegau uchod eu casglu bob blwyddyn na ellir eu cymharu'n uniongyrchol.



Yn 2008 gwnaed 64 miliwn o deithiau ar y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol gan blant er mwyn mynd i'r ysgol neu i chwarae.





Llygredd a newid hinsawdd

Mae data ystadegol dros dro yn dangos:

- Roedd carbon deuocsid (CO₂), y prif nwy tŷ gwydr a gysylltir â newid hinsawdd, yn gyfrifol am tua 85% o gyfanswm allyriadau nwyon tŷ gwydr y DU yn 2008.⁽¹¹⁾
- Daw mwyafrif yr allyriadau CO₂ o ffynonellau trafndiaeth o drafnidiaeth ffordd a gynhyrchodd 117 miliwn tonn fetrig yn 2008 o gymharu â 109 yn 1990.⁽¹¹⁾
- Ers 1990, mae allyriadau nwyon tŷ gwydr o drafnidiaeth ffordd wedi cynyddu gan 7%.⁽¹¹⁾
- Cyflwynodd Deddf Newid Hinsawdd 2008 darged cyfreithiol rwyml i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr y DU gan o leiaf 80% (is na lefelau 1990) erbyn 2050. Y targed interim ar gyfer 2020 yw lleihad gan 34%.⁽¹¹⁾

Anafedigion ar y ffyrdd

Gellir cael gwybodaeth ynglŷn ag anafedigion ar y ffyrdd mewn ardal benodol gan Dîm Diogelwch y Ffyrdd eich awdurdod lleol, sydd fel arfer wedi'i leoli yn yr Adran Prifffyrdd.

Anafiadau traffig sy'n achosi'r mwyaf o farwolaethau ymhlith plant

- Yn 2009 riportwyd 10,354 o anafedigion a ddiodeffodd anafiadau personol mewn damweiniau ffyrdd ledled Cymru. Roedd 1,010 o'r rhain yn blant.⁽¹³⁾
- Roedd 61% o'r plant a laddwyd neu a anafwyd yn ddirifol yn 2009 yn gerddwyr, roedd 20% yn deithwyr mewn ceir a 15% yn feicwyr.⁽¹³⁾
- Yn 2009, roedd cyfnod brig yn y bore lle riportwyd anafedigion ymhlith plant rhwng 8am a 9am, sy'n cyd-daro â theithio i'r ysgol, a chafwyd cyfnod brig arall rhwng 3pm a 8pm.⁽⁴⁾

Mae ein record diogelwch ffyrdd plant yn gwella

- Yng Nghymru, roedd canran y plant a laddwyd neu a anafwyd yn ddirifol o ganlyniad i ddamweiniau ar y ffyrdd yn 2009 53% yn is na chanran 1994-1998.⁽¹³⁾
- Mae cynnydd mewn beicio yn aml yn arwain at leihad mewn anafedigion sy'n feicwyr. Byddai dyblu nifer y beicwyr yn arwain at leihad yn y perygl o feicio gan tua traean.⁽¹⁴⁾

Mae angen i blant ddatblygu sgiliau diogelwch y ffordd

- Mae plant sy'n cerdded i'r ysgol gynradd yn datblygu ymwybyddiaeth diogelwch y ffyrdd ac maent yn llai agored i niwed pan fyddant yn cerdded yn annibynnol i'r ysgol uwchradd.⁽¹⁵⁾
- Mae plant ifanc yn gweld y byd yn wahanol i oedolion, er enghraifft cânt anhawster i farnu cyflymder a phellteroedd cerbydau ac felly mae angen eu haddysgu sut i ymdrin â thraffig.⁽¹⁵⁾
- Mae plant sy'n cerdded i'r ysgol yn ymgysylltu â'u cymuned leol, mae ganddynt rwydweithiau cymdeithasol ehangach ac mae ganddynt ymwybyddiaeth well o synnwyr y ffyrdd.⁽¹⁵⁾

Goryrru yw'r broblem fwyaf

- Cyflymder yw un o'r ffactorau cyfrannol mwyaf mewn damweiniau ffyrdd angheuol. Yn 2009, lladdwyd neu anafwyd yn ddirifol 1,880 o bobl yng Nghymru mewn gwrthdrawiadau lle riportwyd cyflymder fel ffactor gyfrannol. Bu farw 29 o'r rhain.⁽¹⁶⁾
- Mae siawns cerddwr o oroesi os caiff ei daro gan gar yn teithio ar gyflymder o 20 mya yn 95%. Mae hyn yn gostwng i 80% os gyrrir y car ar gyflymder o 30 mya a 10% ar 40 mya.⁽¹⁶⁾
- Dangosodd arolwg a gynhaliwyd yn Llundain bod cyflwyniad parthau 20 mya wedi ei gysylltu â 42% o leihad mewn anafedigion ar y ffyrdd rhwng 1986 a 2006. Roedd y lleihad o ran canran yn isaf ymhlith plant iau.⁽¹⁶⁾

lechyd

Mae mygdarth ceir yn ddrwg i ni

- Mae gan blant sy'n byw yn agos i ffyrdd sydd â thraffig cerbydau trwm ddwywaith y perygl o ddiodeff problemau anadlol â'r rheiny sy'n byw ger strydoedd llai prysur.⁽¹⁸⁾
- Mae teithwyr mewn ceir mewn traffig sy'n symud yn araf yn wynebu lefelau llygredd dwy neu dair gwaith yn uwch na'r rheiny a wynebir gan gerddwr.⁽¹⁹⁾
- Bydd trawsnewidydd catalytig, all ddiinstrio llawer o gemegau llygru mewn pibenni gwacáu ceir, dim ond yn gweithio'n dda pan ei fod yn boeth. Mae'r daith ysgol fel arfer yn rhy fyr i ganiatáu i'r trawsnewidydd catalytig gyrraedd y tymheredd angenrheidiol. Wrth i ragor o blant gael eu gyrru i'r ysgol mae'r aer ger ysgolion yn dod yn fwy llygredig.⁽²⁰⁾

Mae asthma ar gynydd

- Mae 10% o'r holl blant yng Nghymru ar hyn o bryd yn cael eu trin am asthma.⁽²¹⁾
- Gall llygredd amgylcheddol waethygu symptomau asthma a gall chwarae rhan mewn achosi peth asthma.⁽²²⁾
- Dywed 66% o bobl gydag asthma bod mygdarth traffig yn ysgogi eu symptomau.⁽²³⁾

Rydym yn mynd yn fwy dros ein pwysau

- Yn 2009, roedd un o bob pum plentyn yng Nghymru yn ordew, cynnydd gan 3% ar y flwyddyn flaenorol.⁽²⁴⁾
- Rhagamcannir y bydd 70% o ferched a 55% o fechgyn dros eu pwysau neu'n ordew erbyn 2050.⁽²⁵⁾
- Gwyddys bod gordewdra yn arwain at broblemau cronig a phroblemau meddygol difrifol.⁽²⁵⁾
- Yn 2050 rhagwelir y bydd gordewdra yn costio £49.9 biliwn i'r GIG a'r gymuned ehangach (ar brisiau 2007).⁽²⁵⁾

Gweithgarwch corfforol

- Mae manteision iechyd beicio yn llawer mwy nac unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig ag ef - ar gyfartaledd mae beicwyr yn byw dwy flynedd yn hirach na phobl sydd ddim yn beicio.⁽¹⁴⁾
- Yn 2008 ni wnaeth 56% o blant 7 i 11 a 65% o rai 11 i 16 gyflawni'r lefel a argymhellir o weithgarwch corfforol, sef un awr y dydd.⁽²⁶⁾
- Dangosodd astudiaeth bod disgyblion Blwyddyn 8 a oedd yn cerdded y siwrnai i'r ysgol bob dydd yn defnyddio mwy o galoriau nac oeddent yn ei wneud mewn 2 awr o Addysg Gorfforol.⁽²⁷⁾
- Mae'r lleihad mewn lefelau gweithgarwch corfforol o ganlyniad i gynydd mewn defnydd ar y car yn effeithio ar stamina plant, pa mor effro ydynt yn yr ysgol a pherfformiad academaidd.⁽²⁸⁾
- Drwy gyflawni'r lefelau a argymhellir o weithgarwch corfforol gall plant gynnal pwysau corff iach, datblygu esgyrn cyhyrau a system cardiofasgwlaidd iach a gwella cyd-symud a rheolaeth dros symudiad.⁽²⁹⁾
- Mae gweithgarwch corfforol hefyd wedi ei gysylltu â manteision seicolegol mewn pobl ifanc drwy wella eu rheolaeth dros symptomau pryder neu iselder.⁽²⁹⁾
- Mae anweithgarwch yng Nghymru yn costio o leiaf £500 miliwn y flwyddyn mewn colled allbwn, salwch a darpariaeth gofal iechyd ar gyfer salwch y gellir ei osgoi'n llwyr.⁽³⁰⁾

Cyd-destun yng Nghymru

Cyd-destun deddfwriaethol

Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn amlinellu dyletswyddau statudol awdurdodau lleol i ddarparu trafniadaeth ysgol. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i wneud trefniadau teithio ar gyfer plant sy'n derbyn addysg gynradd os ydynt yn byw dwy neu ragor o filltiroedd o'u hysgol addas agosaf, ac ar gyfer plant sy'n derbyn addysg uwchradd os ydynt yn byw tair milltir neu ragor o'u hysgol addas agosaf.

Mae'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr hefyd yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo defnydd ar ddulliau cynaliadwy o deithio pan yn ystyried teithio gan ddysgwyr. Mae'r Mesur yn caniatáu i awdurdodau lleol newid amseroedd sesiynau ysgol lle y byddai'n hyrwyddo dulliau cynaliadwy o deithio neu y byddai'n gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau teithio.

Hefyd, mae nifer o fentrau a strategaethau i'w cael eisoes yng Nghymru sy'n gysylltiedig â'r agenda teithio ysgol egniol. Gall y rhain fod yn ddefnyddiol wrth ddatblygu eich cynllun trafniadaeth ysgol eich hun:

Cynllun Gofodol Cymru (CGC)

Gweledigaeth 20 mlynedd ar gyfer Cymru yw'r Cynllun Gofodol sydd wedi ei strwythuro i adrannau ar lefel genedlaethol ac ardal. Datblygwyd y Cynllun i sicrhau bod Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i phartneriaid a'i hasiantau yn datblygu polisi mewn modd sy'n rhoi ystyriaeth i wahanol heriau a chyfleoedd mewn gwahanol rannau o Gymru; ac i ddarparu sail a momentwm ar gyfer cydweithio ar agenda a rennir yn lleol, fel y gall gwahanol rannau o Gymru sefydlu eu hymagwedddau eu hunain er mwyn bodloni'r amcanion a osodwyd.

Ardaloedd Cynllun Gofodol Cymru	Awdurdodau Lleol
Gogledd Orllewin Cymru	Ynys Môn; Gwynedd; Conwy
Gogledd Ddwyrain Cymru	Wrecsam; Sir y Fflint, Sir Dinbych; Conwy
Central Wales	Denbighshire; Conwy; Powys; Ceredigion; Carmarthenshire; Gwynedd
Canolbarth Cymru	Sir Ddinbych; Conwy; Powys; Ceredigion; Sir Gaerfyrddin; Gwynedd
Sir Benfro	Sir Benfro; Sir Gaerfyrddin
Bae Abertawe	Abertawe; Sir Gaerfyrddin; Pen-y-bont ar Ogwr; Castell-nedd Port Talbot
De Ddwyrain Cymru	Caerdydd; Casnewydd; Sir Fynwy; Blaenau Gwent; Rhondda Cynon Taf; Pen-y-bont ar Ogwr; Bro Morgannwg; Merthyr Tudful; Caerffili; Torfaen

Gweledigaeth y Fframwaith Genedlaethol yw: Cynnal cymunedau drwy fynd i'r afael â'r heriau a berir gan newid mewn poblogaeth a newid economaidd; tyfu mewn ffyrdd a fydd yn cynyddu cystadleugarwch tra'n lledaenu ffyniant i ardaloedd llai cefnog a lleihau effeithiau amgylcheddol negyddol; gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig er ei fudd ei hun ac am yr hyn y mae'n ei gyfrannu at les; a chynnal hunaniaeth nodedig Cymru.

Ar lefel ardal, mae Cynllun Gofodol Cymru yn rhannu Cymru yn chwe Ardal, gan alluogi gwahanol rannau o Gymru i ddarparu ymateb penodol i gyflawni'r weledigaeth genedlaethol. Yn unol â gweledigaeth y Cynllun o 'ffiniau aneglur', caiff nifer o awdurdodau lleol eu diffinio fel rhai sy'n gorwedd o fewn mwy nac un ardal ofodol.

Strategaeth Trafniadaeth Cymru

Mae Strategaeth Trafniadaeth Cymru yn lansio ymagwedd newydd at bolisi trafniadaeth sy'n canolbwyntio ar sut y gall trafniadaeth gyfrannu at well ansawdd bywyd drwy gydnabod bod yn rhaid i drafniadaeth gael ei gynllunio, ei weithredu a'i reoli ar y cyd gyda



Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol	Awdurdodau Lleol
TAITH	Conwy; Sir Ddinbych; Sir y Fflint Gwynedd; Ynys Môn; Wrecsam
TRACC	Ceredigion; Gwynedd; Powys
SWWITCH	Sir Benfro; Sir Gaerfyrddin; Abertawe; Castell-nedd Port Talbot
SEWTA	Blaenau Gwent; Pen-y-bont ar Ogwr; Caerffili; Caerdydd; Merthyr Tudful; Sir Fynwy; Casnewydd; Rhondda Cynon Taf; Torfaen; Bro Morgannwg

meysydd polisi eraill. Mae'r Strategaeth, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2008, yn cynnig cyfres o ganlyniadau sy'n seiliedig ar dair 'colofn cynaliadwyedd', cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, y dylai polisïau a phrosiectau trafniadaeth yng Nghymru geisio eu cyflawni.

Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol

Mae Strategaeth Trafnidiaeth Cymru yn lansio ymagwedd newydd at bolisi trafniadaeth sy'n canolbwyntio ar sut y gall trafniadaeth gyfrannu at well ansawdd bywyd drwy gydnabod bod yn rhaid i drafniadaeth gael ei gynllunio, ei weithredu a'i reoli ar y cyd gyda meysydd polisi eraill. Mae'r Strategaeth, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2008, yn cynnig cyfres o ganlyniadau sy'n seiliedig ar dair 'colofn cynaliadwyedd', cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, y dylai polisïau a phrosiectau trafniadaeth yng Nghymru geisio eu cyflawni.

Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol

Er mwyn gwella effeithiolrwydd cynllunio trafniadaeth, grwpiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru awdurdodau lleol yng Nghymru yn bedwar consortiwm rhanbarthol. Mae gofyn i bob consortiwm baratoi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, a ystyrir fel y dogfennau gweithredu a fydd yn rhoi ar waith fwradau Strategaeth Trafnidiaeth Cymru a Chynllun Gofodol Cymru.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn defnyddio'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol a ddatblygwyd fel mecanwaith ar gyfer clustnodi ariannu i'r rhanbarthau.

Targedau

Gwnaed y targedau canlynol yng Nghymru sy'n cysylltu'n uniongyrchol i'r agenda teithio cynaliadwy:

Mae cytundeb **Cymru'n Un** rhwng Llafur a Plaid Cymru yn nodi targed lleihad mewn allyriadau sy'n cyfateb i garbon gan dri y cant erbyn 2011 mewn ardaloedd o gymhwysedd datganoledig.⁽³¹⁾

Mae'r **Strategaeth Newid Hinsawdd** yn ehangu ar yr ymrwymadau a nodir yn nogfen Cymru'n Un, gan roi rhagor o fanylion ynglŷn â sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr gan dri y cant mewn ardaloedd o gymhwyseddau datganoledig. Mae hefyd yn ymrwymo i darged hirdymor y DU i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr gan o leiaf 80 y cant erbyn 2050.⁽³²⁾

Gweithredu	Dyddiad
Pob ysgol i ddatblygu cynlluniau teithio egnïol, yn cynnwys darparu hyfforddiant beicio a diogelwch ffyrdd ar gyfer plant a phobl ifanc,	2010-2015
Blaenoriaethu gweithredu i gynyddu cyfranogiad mewn gweithgarwch corfforol merched yn eu harddegau.	2010-2015

Mae **Cynllun Gweithredu Cerdded a Beicio i Gymru 2009-13** yn dwyn ynghyd yr holl fentrau allweddol y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i phartneriaid yn eu cynnal neu'n bwriadu eu cynnal er mwyn cefnogi neu gynyddu cerdded a beicio yng Nghymru. Un o brif nodau'r cynllun yw cynorthwyo i newid ymddygiad - fel bod mwy o bobl, hen ac ifanc, yn cerdded a beicio'n amlach. O ran Teithio i'r Ysgol, mae gan y Strategaeth ddau darged:

Cerdded: Cynyddu canran y plant sy'n cerdded i'r ysgol i gyfateb i Gyfartaledd y DU o'i lefel bresennol, sef 39%, i 46% yn 2013.



Beicio: Treblu canran y plant sy'n beicio i'r ysgol yng Nghymru, o un y cant (11 - 16 oed) a dau y cant (7-11 oed) i dri y cant a chwech y cant yn y drefn honno yn 2013.

Caiff cynnydd yn erbyn y camau a nodir yn y cynllun eu hadrodd yn flynyddol. Cyhoeddwyd yr adroddiad blynyddol cyntaf ar gynnydd (2009/10) ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae **Creu Cymru Egniol** ⁽²⁶⁾ yn amlinellu sut y bydd Cymru yn annog lefelau cynyddol o weithgarwch corfforol. Mae gan y cynllun ddau darged lefel uchel mesuradwy sydd â'r nod o gael pawb i wneud 'un diwrnod yn fwy'. Ar gyfer plant, y targed yw symud y pwynt cyfartaledd o ran gweithgarwch corffol ar gyfer rhai 11 i 16 oed o 60 munud y dydd ar 3.9 diwrnod i 60 munud y dydd ar 4.9 diwrnod erbyn 2020. O fewn y

targed hwn mae'r gofyniad canlynol wedi ei anelu at deithio ysgol:

Cyfeiriadau

- (3) DfT (2010) Rhagolygon Trafnidiaeth Ffordd 2009
- (4) DfT (2009) Arolwg Teithio Cenedlaethol
- (5) DfT (2008) Arolwg Teithio Cenedlaethol
- (6) Bike For All (2006)
<http://www.bikeforall.net/news.php?articleshow=229>
- (7) GIG (2007) Cerdded Llwybr Iechyd
- (8) Canolfan ar gyfer Economeg ac Ymchwil Busnes (2008) seiliedig ar ffigurau ONS, DfT, a AA
- (9) Hillman et al (1990) A study of children's independent mobility
- (10) DfT (2008) Anafedigion ar y Ffyrdd ar gyfer Prydain Fawr
- (11) Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (2010) Dangosydd Datblygiad Cynaliadwy Newid Hinsawdd y DU: 2009
- Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr
- (12) Allyriadau Carbon Deuocsid yng Nghymru (2009) Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- (13) DfT (2010) Anafedigion sy'n blant a riportwyd mewn damweiniau ffyrdd Prydain Fawr: 2008 Ystadegau Damweiniau Ffyrdd Ffeithlen Rhif 5
- (14) CTC (2009) Safety in Numbers
- (15) Living Streets (2008) Backseat Children
- (16) British Medical Journal (2009) Effect of 20mph traffic speed zones on road injuries in London (1986-2006)

- (17) Autoglass (2003) Arolwg Mum's on the Run
- (18) WHO (cyrchwyd 2010) Ffeithiau a Ffigurau Trafnidiaeth ac Iechyd
- (19) ETA (1997) Road user exposure to air pollution
- (20) Tidy Northern Ireland (2008) Bwletin ar gyfer Ysgolion Eco
- (21) Arolwg Iechyd Cymru 2009 (2010) Llywodraeth Cynulliad Cymru
- (22) Asthma UK (2010)
http://www.asthma.org.uk/all_about_asthma/asthma_basics
- (23) Asthma UK (2010) Memorandwm ansawdd aer a gyflwynwyd i'r Senedd
- (24) Arolwg Iechyd Cymru 2009 (2010) Llywodraeth Cynulliad Cymru
- (25) Swyddfa Gwyddoniaeth y Llywodraeth - Rhaglen Foresight (2007) Tackling Obesity: Future Choices (2il rifyn)
- (26) Creu Cymru Egniol (2009) Llywodraeth Cynulliad Cymru
- (27) Mackett, P. (2004) Making Children Healthier Through Walking
- (28) WHO (2000) Transport, Environment and Health
- (29) WHO (2010) Global Recommendations on Physical Activity for Health
- (30) Dringo'n Uwch: Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol (2005) Llywodraeth Cynulliad Cymru
- (31) Cymru'n Un - Agenda flaengar ar gyfer Llywodraethu Cymru, (2007). Llywodraeth Cynulliad Cymru
- (32) Strategaeth ar Newid yn yr Hinsawdd: Ymgynghoriad Datganiad polisi lefel uchel (2009) Llywodraeth Cynulliad Cymru
- (33) Cynllun Gweithredu Cerdded a Beicio i Gymru 2009-13 (2008) Llywodraeth Cynulliad Cymru

Gwybodaeth Bellach

Ewch i'r wefan Teithio Ysgol www.sustrans.org.uk/schooltravel i gael:

- y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf ar faterion teithio ysgol
- gwybodaeth benodol ar bob un o ranbarthau'r DU
- adnoddau y gellir eu lawrlwytho yn cynnwys dalenni gwybodaeth eraill,
- astudiaethau achos, deunyddiau cwricwlwm a chylchlythyron

Ar gyfer ymholiadau Teithio Ysgol ffoniwch 0117 915 0100 neu anfonwch e-bost i schools@sustrans.org.uk

Ynglŷn â Sustrans

Sustrans yw'r elusen sy'n galluogi pobl i deithio ar droed, beic neu drafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer rhagor o'r siwrneiau a wnawn bob dydd.

Mae'n bryd i ni gyd ddechrau gwneud dewisiadau teithio craffach. Camwch ymlaen a chefnogwch Sustrans heddiw. www.sustrans.org.uk

Prif Swyddfa: Sustrans, 2 Cathedral Square, College Green, Bristol, BS1 5DD

www.sustrans.org.uk Llinell Wybodaeth Teithio Ysgol: 0117 815 0100

Ffotograffiaeth: © Staff Sustrans

Gellir llungopio'r ddalen wybodaeth hon i'w defnyddio mewn ysgolion ac awdurdodau lleol. Ar gyfer atgynhyrchu mewn cyhoeddiadau eraill, cysylltwch â'r tîm Teithio Ysgol yn Sustrans am ganiatâd.

Mae Sustrans yn elusen gofrestredig rhif 326550 (Cymru a Lloegr) SCO39263 (Yr Alban)



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

YMUNWCH Â'R MUDIAD

sustrans
JOIN THE MOVEMENT